

## Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Hywel Edwards (Peniel) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei dad ddechrau'r wythnos. Gweddian y byddant oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Parhawn i gofio yn ein gweddïau am y rhai sydd heb fod yn dda gan eu cyflwyno'n dyner i ofal yr Arglwydd. Yn Ysbyty Glan Clwyd y mae Gwilym Foulkes (Nantglyn), Aled Roberts (Henllan), Doreen Evans (Tanyfron), a Menna Owen (Cefn Meiriadog), ac mae Harold Lloyd (Tanyfron) yn Ysbyty Bae Colwyn. Bu Bob Edwards (Groes) yn Ysbyty Glan Clwyd dros nos hefyd. Anfonwn ein cofion at bob un ohonynt gan hyderu y byddant yn profi Duw yn agos ac y byddant yn derbyn adferiad iechyd buan iawn.
- Yr un modd, parhawn i gofio am y rhai sydd mewn cartrefi gofal – Mr Elfed Davies (Plas Eleri); Mrs Enid Jones (Plas Ogwen); Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys); Mrs Mair Roberts a Miss Hannah Alice Jones (Yr Hen Ficerdy); Mr Aneurin Evans (Park Lodge); Mrs Myra Hughes a Mrs Menna Streeter (Maes Elwy); a Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy). Hyderwn eu bod hwythau yn profi gofal a grym ein gweddïau drostynt.

## I ddod

- **Adnabod Be Nesa?** Cyfarfod i'r criw gafodd eu derbyn yn aelodau yn ddiweddar ac ar gyfer ieuenctid 15+ nos Lun, Tachwedd 14eg am 7.30 hefo Rhodri a Huw Tan y Graig. Bydd y cyfarfod cyntaf yn y Granar yn Llansannan a'r lleoliad i'w drafod ar gyfer y tro wedyn.
- **Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod nos Fawrth, Tachwedd 15fed yng Nghanolfan Seion, Dinbych am 7.00 yng nghwmni y Parch. Meirion Morris fydd yn dod i gyflwyno y rhaglen Dorcas.
- **Cyfarfod i Flaenoriaid yr Ofalaeth** nos Lun, Tachwedd 28ain yng Nghapel Llanefydd am 7.30.
- **Noson o hyfforddiant i athrawon Ysgol Sul Gofalaeth Bro Aled** yng Nghapel Henllan nos Fawrth, Tachwedd 22ain am 7.30. Bydd Aneurin a Rhodri yn rhoi arweiniad ar y maes llafur sydd wedi ei osod ar gyfer 2012 a byddai'n fuddiol i bawb sy'n ymgymryd â'r gwaith o arwain dosbarth Ysgol Sul plant/ieuenctid ac oedolion i fod yno.

## Eglwysi Bro Aled

**Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau**

## Llais Bro Aled

**Dydd Sul, 6<sup>ed</sup> Tachwedd 2011**

*Cofiwch am yr oedfa arbennig heno yn Llansannan am 6.00 gyda John Emyr a Gwen o Gaerdydd.*

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Glywsoch chi erioed am Naya Kanga? Naddo? Na finnau chwaith tan yn lled ddiweddar. Rhys Dafis ddaru sôn mewn sgwrs ryw noson ei fod yn bwriadu dringo'r mynydd hwn ym mis Tachwedd eleni. Sôn roedd o fel petai o am bicied draw i Ddinbych! Ond mae'r mynydd hwn yng nghanol yr Himalaya yng nghysgod mynydd Everest! Dymunwn yn dda i Rhys, dwi'n siwr, ar antur go arbennig, ac i Sheila a'r teulu a fydd yn aros yn eiddgar i'w gael adref yn saff.

Mae Rhys yn enedigol o Lansannan ac wedi dychwelyd yma hefo'i wraig, Sheila, ers bron i flwyddyn bellach, wedi cyfnod o ugain mlynedd yn byw yn ardal Caerdydd. Mae'n gweithio fel Cyfarwyddwr Eiddo i Gymdeithas Tai Clwyd yn Ninbych ac yn awyddus i godi pres i dair elusen haeddiannol:

- **'Ty Gobaith'** – hosbis i blant dewr sy'n wynebu afiechydon enbyd
- **'Ystafell Fyw'** – sy'n cynnig help i'r rhai sy'n goresgyn dibyniaeth ar alcohol a chyffuriau, dan arweiniad Wynford Elis Owen
- **'Shelter Cymru'** – sy'n rhoi cyngor a help i'r digartref a rhai sy'n byw mewn amgylchiadau anodd

Gobeithio eich byddwch yn teimlo ar eich calon i'w noddi. Mae'n dweud y bydd eich cefnogaeth yn help iddo wrth geisio cyrraedd y copa. Os ydych am ei noddi, ewch i'r wefan: <http://uk.virginmoneygiving.com/RhysDafis> neu gallwch ysgrifennu siec yn daladwy i'ch dewis o elusen gan roi 'Rhys Dafis - Himalaya 2011' ar gefn y siec a'i hanfon i Rhys Dafis, Cilgwyn, Llansannan, Dinbych LL16 5HL, neu roi eich cyfraniad i un ohonom ni'n tri. Edrychwn ymlaen i weld y lluniau ac i gael yr hanes yn llawn.

Dringo'r mynydd a wnaiff y pererin hefyd – dringo'n llwythog dan ei bwn – ar ei liniau. Ond o ddringo Calfaria gallwn ninnau daflu'r baich i rym maddeuant Duw a chael ein cymodi. Codwn ein llygaid heddiw i Galfaria ac at y gogoniant sydd yno dan y loes a'r gwawd. Boed bendith ar yr oedfaon ac ar ein hamser ynghyd gyda'r Arglwydd heddiw.

*"Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd, o'r lle y daw fy nghymorth. Fy nghymorth a ddaw oddi wrth yr Arglwydd, yr hwn a wnaeth nefoedd a daear." (Salm 121:1-2)*

Cofiwch ddod heno i'r oedfa arbennig heno hefo John Emyr a Gwen sydd yn dod atom o Gaerdydd. Mae John Emyr yn fab i'r diweddar Barch Emyr Roberts, Y Rhyl, a dwi'n siwr y bydd bendith ar y Gair, fel ag yr oedd bendith ar weinidogaeth Emyr Roberts. Bydd Gwen yn sôn am ei gwaith gyda'r plant yn ysgolion Caerdydd ac fe fydd hyn yn berthnasol i athrawon Ysgol Sul ac eraill sydd yn cefnogi ein gweinidogaeth i'r plant a'r bobl ifanc.

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd John Emyr Roberts a'i wraig, Gwen sydd yn Weithiwr Cristnogol mewn ysgolion yng Ngaerdydd, yn dod draw atom i gymryd rhan yn yr oedfa. Bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **CAP** (Grŵp genod bl. 7-11) yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mercher • **Dod i Adnabod – Grŵp Rhodri** yn cyfarfod yng Nghefn Meiriadog am 7.30
- **Dod i Adnabod – Grŵp Aneurin** yn cyfarfod yn Groes am 7.30.
- **Grwpiau Tai Adnabod** yn cyfarfod am 8.00.
- **Cyfarfod Chwiorydd Annibynwyr Dyffryn Clwyd** yng Nghapel Pendref, Rhuthun am 7.00. Y wraig wadd fydd Mrs Mair Roberts a'i thelyn. Ceir yno hefyd stondin Dewch a Phrynwch. Croeso i bawb.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30
- Gwener-Sul • **Penwythnos CIC** (Bl.7-11) yng Ngholeg y Bala. Cysylltwch â Rhodri i wybod y trefniadau (870522).
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi am 10.00 a byddwn yn ymgynnull ger y gofeb ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio am 10.50. Bydd Ysgol Sul y plant am 10.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn pregethu ym Mheniel am 10.00 a Mr Arwel Roberts yn pregethu yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf SYLWCH: Bydd Aneurin yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac oedfa fedydd yn Saron am 2.00 pryd y bydd Arfon a Mari yn cyflwyno Elsi Thea i gael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Nantglyn am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Mrs Enid Davies yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 a chynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.
- Sul nesaf Bydd Mr Owain Roberts yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd gwasanaeth Sul y Cofio wrth y gofgolofn am 10.50. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:  
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.